John Cadbury 1801–1889

Crynwr a chynhyrchydd coco a siocled

Ganwyd John Cadbury ar 12 Awst 1801 yn 92 Bull Street, Birmingham, i deulu o Grynwyr ymroddedig. Ef oedd y pumed plentyn o ddeg i'r dilledydd Richard Tapper Cadbury a'i wraig Elizabeth. O 1810 hyd 1815 bu yn ysgol Joseph Crosfield yn Hartshill a gedwid gan y Crynwyr.

Ym 1816 dechreuodd ar brentisiaeth gyda chwmni manwerthu te y Crynwr John Cudworth yn Leeds. Wedi chwe blynedd yno anfonodd ei dad ef i weithio yn nhŷ te Sanderson Fox yn Llundain er mwyn ehangu ei brofiad a'i orwelion. Ym 1824 cafodd ychydig o arian a sefydlodd ei gwmni ei hun fel masnachwr te a rhostiwr coffi yn Birmingham. Priododd ddwywaith. Bu farw ei wraig gyntaf yn annhymig a chyda'i ail wraig Candia, merch George Barrow a oedd yn berchennog fflyd o longau, cafodd chwech o blant.

Cynhyrchwyd powdr coco i wneud diod am y tro cyntaf ym 1830. Sylweddolodd John Cadbury yn syth bin y posibiliadau a chyda'i brofiad mewn rhostio ffa a pharatoi nib (ffa coco wedi eu gwasgu) penderfynodd agor ffatri. Prynodd hen fragdy yn Crooked Lane ym 1831 ac fe ystyrir hwn fel cychwyn y cwmni cynhyrchu byd enwog Cadbury.

Yn ystod y ddeng mlynedd gyntaf datblygodd amrediad ehangach o gynhyrchion, e.e. amrywiaeth o un ar bymtheg o ddiodydd siocled ac un ar ddeg coco. Aeth i bartneriaeth gyda'i frawd Benjamin a newidiwyd enw'r cwmni i Cadbury Brothers. Ym 1847 symudasant i adeilad mwy yn Bridge Street ac ym 1853 fe'u penodwyd yn gynhyrchwyr coco swyddogol y Frenhines Victoria.

Roedd yn gwbl argyhoeddedig bod atebion ymarferol i broblemau cymdeithasol yr oes ac fe ymrodd i geisio eu datrys yn enwedig trwy'r mudiad dirwestol. Credai fod llawer iawn o gyflogau dynion yn cael eu gwastraffu ar yfed alcohol ac o ganlyniad eu bod yn amddifadu eu teuluoedd o hanfodion sylfaenol bywyd. Dadleuai y gallai'r

llwyrymwrthodwr fforddio golwyth o eidion ar y Sul. Fe'i penodwyd i fwrdd comisiynwyr Birmingham a gwasanaethodd fel gwarcheidwad y tlodion. Roedd yn amlwg iawn yn yr ymgyrch i atal bechgyn bach rhag dringo i lanhau simneiau. Ym 1855 fe'i trawyd ef yn ddifrifol wael a dirywiodd y busnes yn arw. Ymddeolodd ym 1861 gan drosglwyddo'r busnes i ddwylo dau o'i feibion sef Richard a George. Bu farw ar 11 Mai 1889 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Witton, Birmingham.